**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**Dyddiad: Dydd Mercher 20 Tachwedd 2002**

**Amser: 9.30am hyd 12.30pm**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3/4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

## YR ADOLYGIAD ARFAETHEDIG O AWDURDODAU PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU

### Diben

1. Diben y papur hwn yw hysbysu'r Pwyllgor am fwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal adolygiad annibynnol o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru a chael sylwadau ar y cylch gwaith drafft.

### Argymhelliad

2. Gwahoddir y Pwyllgor i gymeradwyo'r cylch gwaith drafft sy'n amgaeëdig.

### Amseru

3. Am fod y Parciau Cenedlaethol yn bwysig iawn i Gymru ac oherwydd y diddordeb trawsbleidiol ynddynt, mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd am wneud datganiad yn y cyfarfod llawn ynghylch yr adolygiad cyn bod y gwaith yn dechrau'n ffurfiol. Bydd y datganiad hwnnw'n cael ei wneud ar 3 Rhagfyr. Cyn hynny, mae'r Gweinidog yn dymuno ymgynghori â'r Pwyllgor ar ei chynlluniau.

### Cefndir/cyd-destun yr adolygiad

4. Sefydlwyd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru yn eu ffurf bresennol ym 1995. Ers hynny, maent wedi gwneud gwaith da iawn ar sawl agwedd. Serch hynny, mae'r sialensau y maent yn eu hwynebu yn cynyddu; ac ar yr un pryd, mae eu cylch gwaith yn newid, yn enwedig yn dilyn sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol. Ni chynhaliwyd adolygiad annibynnol o'r Awdurdodau ers nifer o flynyddoedd, ac mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd yn credu ei bod yn bryd bellach cynnal adolygiad.

## Canolbwynt yr adolygiad

5. Y bwriad yw canolbwyntio ar y ffordd y gellid helpu'r Awdurdodau i ymateb yn effeithiol i'r sialensau sy'n eu hwynebu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Awgrymwyd y dylai'r adolygiad ganolbwyntio ar y pedwar mater canlynol, gan gadw mewn golwg y blaenoriaethau presennol o ran polisi a'u profiad hyd yn hyn.

a. rôl yr Awdurdodau, gan gynnwys mewn perthynas â datblygu gwledig – sut y gellid ei datblygu/chryfhau?

b. hyrwyddo datblygu cynaliadwy – sut y gellid sicrhau bod cyfraniad y Parciau at hyn mor fawr â phosibl?

c. cysylltiadau gwledig/trefol – sut gall yr Awdurdodau gyfathrebu'n llwyddiannus â chymunedau sydd y tu hwnt i'w ffiniau?

d. cymorth ar gyfer cymunedau lleol – sut y gallai'r Awdurdodau ymateb yn well i'w cymunedau lleol a bod yn fwy atebol iddynt?

6. Nod yr adolygiad fyddai ystyried canlyniadau perthnasol adolygiad DEFRA o'r Parciau Cenedlaethol yn Lloegr, a gwblhawyd yn yr haf. Byddai hefyd yn archwilio goblygiadau posibl cael aelodau wedi'u hethol yn uniongyrchol i'r Awdurdodau, ynghyd â ffyrdd eraill o wella'r cysylltiad â chymunedau lleol.

## Cynnal yr adolygiad

7. Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd yn bwriadu comisiynu ymgynghorwyr allanol i gynnal yr adolygiad. Bydd gwaith yr ymgynghorwyr yn cael ei oruchwylio gan grp llywio bach o garfanau perthnasol, gan gynnwys arbenigwr mewn materion yn ymwneud â chadwraeth/ tirwedd a ddiogelir.

## Y camau nesaf

8. Mae'r gwaith paratoi yn mynd rhagddo eisoes er mwyn gwahodd tendrau ar gyfer y gwaith hwn. Y bwriad yw cychwyn ar yr adolygiad yn y Flwyddyn Newydd. Disgwylir y bydd yn cymryd tua chwe mis i'w gynnal. Bydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn cael ei hysbysu am ganlyniad yr adolygiad.

## Goblygiadau Ariannol

9. Bydd cyllideb Grp yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar gyfer y rhaglen ymgynghori

yn 2003/4 yn talu costau'r adolygiad.

**Cydymffurfio**

10. Mae Adran 40 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, ynghyd ag Adran 33, yn caniatáu i'r Cynulliad wneud unrhyw beth a fydd yn hwyluso'r ffordd y mae'n cyflawni ei ddyletswyddau - ac mae'r adolygiad hwn yn y category hwnnw. Nid oes materion o reoleidd-dra na phriodoldeb.

Tachwedd 2002 Yr Is-adran Cefn Gwlad

DRAFFT

**ADOLYGU'R PARCIAU CENEDLAETHOL - CYLCH GWAITH ARFAETHEDIG**

**Y cefndir**

1. Sefydlwyd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru tua 50 mlynedd yn ôl, fel pwyllgorau awdurdodau lleol yn wreiddiol. Cawsant eu sefydlu yn eu ffurf bresennol - fel awdurdodau lleol ag iddynt ddibenion arbennig - o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Ers 1995, bu nifer o ddatblygiadau arwyddocaol sydd wedi effeithio ar eu polisïau a'u fframwaith gweithredol sef: sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol a'i ddyletswydd statudol i hybu datblygiad cynaliadwy; cyflwyno'r trefniant Gwerth Gorau; a mentrau mwy diweddar megis Ffermio ar gyfer y Dyfodol a'r newidiadau a gynigiwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i'r system gynllunio. Mae'r cyd-destun y mae'r Awdurdodau'n gweithio ynddo wedi newid llawer yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'n parhau i newid.

**Sialensau sy'n wynebu'r Awdurdodau**

2. Heddiw, mae'r Awdurdodau yn wynebu nifer o flaenoriaethau ac ystyriaethau sy'n gwrthdaro â'i gilydd. Mae Amaethyddiaeth, sy'n effeithio'n fawr ar y tirwedd y mae disgwyl i'r Parciau ei ddiogelu a'i ddatblygu, yn newid yn gyflym oherwydd newidiadau polisi a grym y farchnad. Sut gall y Parciau ddylanwadu ar hyn yn synhwyrol er budd eu hardaloedd? Erbyn hyn, mae pobl yn gallu teithio o le i le yn haws ac mae ganddynt fwy o amser hamdden. Felly, mae'r Parciau o fewn cyrraedd i lawer mwy o bobl. Rhaid i'r sefyllfa hon gael ei monitro yn effeithiol, a rhaid defnyddio ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio lle bo hynny'n bosibl. Hefyd, mae angen i'r Parciau gymryd camau positif i feithrin cysylltiadau â mwy o bobl o fewn eu ffiniau a thu hwnt, gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig a'r rhai sy'n byw yn ardaloedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Mae gwaith defnyddiol wedi'i wneud eisoes mewn perthynas â hyn, ond fe ellid gwneud mwy. Eto,

mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i'r Parciau fod yn gyfrwng i arbrofi â datblygu cynaliadwy, ac mae'n cefnogi gweithgareddau yn y gymuned yn uniongyrchol trwy'r Gronfa Datblygu Economaidd a weinyddir gan y Parciau. Serch hynny, mae cyflawni dyletswyddau mewn ffordd sy'n hybu datblygu cynaliadwy ledled yr Awdurdodau yn amcan pwysig at y dyfodol o hyd.

3. Mae esiampl datblygu cynaliadwy hefyd yn tynnu sylw at her arall sy'n wynebu'r Awdurdodau sef ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol <u>a</u> lleol. Mewn gwirionedd, mae gan yr Awdurdodau <u>ddwy agenda</u> sef rheoli asedau cenedlaethol pwysig a chynnal eu cymunedau lleol. Mater pwysig yn y fan hon yw'r rhan y gallai'r Awdurdodau ei chwarae yn natblygiad cymdeithasol ac economaidd ardaloedd gwledig (sy'n bwysig iawn yn dilyn argyfwng clwy'r traed a'r genau y llynedd) - a sut y gellid datblygu'r rôl honno yn synhwyrol (heb ddyblygu na dwyn rôl carfanau allweddol eraill). Hefyd, er bod nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwyir yn y Parciau a'r awdurdodau cynllunio lleol eraill yn debyg, y farn gyffredin am Awdurdodau'r Parciau yw eu bod yn rhwystro datblygiad. Felly, her arall i'r Awdurdodau yw cydweithio'n agosach â'u cymunedau lleol fel eu bod yn cael eu hystyried yn <u>ddylanwad positif</u> sy'n ymwybodol o anghenion lleol ac yn ymateb iddynt.

4. Nod yr adolygiad arfaethedig yw archwilio'r materion hyn yn fanylach er mwyn helpu'r Awdurdodau i ymateb i'r prif sialensau y maent yn eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol.

**Materion allweddol i'r adolygiad fynd i'r afael â hwy**

5. Awgrymwyd y dylai'r adolygiad ganolbwyntio ar y pedwar mater allweddol canlynol:

a. <u>Rôl y Parciau</u>

   Sut y gellid cryfhau rôl a dylanwad y Parciau er budd yr holl garfanau perthnasol, gan gynnwys y cymunedau sydd o fewn eu ffiniau?

   I ba raddau y mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn cyfyngu ar allu'r Parciau i gyflawni eu hamcanion/gwireddu eu potensial? A fyddai newid y <u>ddeddfwriaeth o gymorth yn hyn o beth?</u>

   Ym mha ffordd y gallai'r Parciau chwarae rôl <u>gryfach</u> wrth ddatblygu cefn gwlad a rheoli ardaloedd gwledig yn gynaliadwy? Sut y gellid cyflawni hyn a beth fyddai'r goblygiadau o ran adnoddau?

b. <u>Hyrwyddo datblygu cynaliadwy</u>

   Sut y gellid datblygu rôl yr Awdurdodau fel cyfrwng i arbrofi â datblygu cynaliadwy, yn enwedig mewn perthynas â chefnogi cymunedau cynaliadwy?

c. Croesi ffiniau (cysylltiadau rhwng ardaloedd gwledig a threfol)

Sut y gellir cryfhau rôl y Parciau wrth gyflawni amcanion y Cynulliad o ran cynhwysiant cymdeithasol?

I ba raddau y mae'r Awdurdodau yn cyfathrebu'n llwyddiannus â chymunedau trefol sydd y tu hwnt i'w ffiniau; a sut y gellid cryfhau cysylltiadau o'r fath?

d. Cefnogi cymunedau lleol

Pa gamau ymarferol y gallai'r Parciau eu cymryd i gydweithio'n fwy effeithiol â'u cymunedau lleol?

Beth yw'r manteision o gyflwyno categori newydd o aelodau a etholir yn uniongyrchol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru a beth fyddai'r goblygiadau? I ba raddau y gallai hyn gryfhau democratiaeth leol a gwneud yr Awdurdodau yn fwy atebol i'w cymunedau lleol?

Pa gamau ymarferol eraill y gellid eu cymryd i wella hunaniaeth cymunedau'r Parciau a'u perthynas â'u Hawdurdod?

Tachwedd 2002 Y Gangen Cefn Gwlad ac Arfordiroedd

Yr Is-adran Gefn Gwlad